**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 9fed Hydref 2025 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Arwel Jones (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Gary Evans, Helen Evans, Tina Jones, Alwen Thomas ac Iwan Thomas.
Clerc: Denfer Morgan

**299 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Robert Davies, Nigel Davies, Eirlys James-Evans a'r Cynghorydd Sir Marc Davies am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**300 Trefn**

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Arwel Jones.

**301 Cofnodion y Cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 3ydd Gorffennaf 2025**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 3ydd Gorffennaf 2025.

**302 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD**

**i)** talu'r canlynol:

Un Llais Cymru (Tâl Aelodaeth 2025-26) - £181

*Cyflog y Clerc (Gorff-Awst-Medi) (yn cynnwys ôl-daliad o un mis):*
Denfer Morgan - £400.04
CThEF (TWE) - £100

**ii)** nodi derbyn ail daliad praesept 2025-26 yn y swm o £2,000.

**303 Cyfrifon Blynyddol 2024-25**

**PENDERFYNWYD** nodi derbyn barn 'Diamod' gan Archwilio Cymru ynghylch Cyfrifon Blynyddol 2024-25.

**304 Materion Cynllunio**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:

a) Cais Cynllunio A250606 - Tyglyn Aeron Hotel, Ciliau Aeron. Removal/Variation of conditions 5 (Lighting plan), 6 (Noise Impact

Assessment), 7 (Mechanical Ventilation), 9 (Public access to external areas), 11 (Waste) and 12 (Collection/disposal plan for oils/fat/grease) from planning permission A240906

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

*b)* Cais Cynllunio A250352 - Preswylfa, Ciliau Aeron. *Proposed alterations to existing dwelling to include demolition of extension.*

**Nodwyd** fod y Cynghorydd Sir Marc Davies wedi sicrhau fod y Swyddog Gorfodaeth yn archwilio'r tebygrwydd fod mynedfa anghyfreithlon wedi ei greu fel rhan o'r datblygiad hwn.

**305 Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Cilcennin**

Nodwyd and oedd dim byd pellach wedi ei glywed gan Awdurdodau'r Eglwys.

**306 Unrhyw Fater Arall**

a) nodi fod y gwelliannu i lwybr troed 45/31 wedi eu cwblhau

b) gofyn i'r Cyngor Sir gweithredu ar y canlynol

- cyflwr y ffordd rhwng cyffordd sgwâr Ciliau Aeron a'r Bont Newydd
- gosod arwydd 'ffordd yn culhau' ar y ffordd yn arwain at y Bont
- cyflwr y ffordd C1074 yn arwain o Neuadd Bentref Cilcennin i fyny at Dyffryn Arth

c) archwilio'r fynedfa ymddangsiadol newydd a grewyd ger Glanbran.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:15pm